OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1410 (Cy.125)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

Gorchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*11 Mai 2010*
Yn dod i rym - -	*12 Mai 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 188(1) a (2)(d) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**1**).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad ganddo yn unol ag adran 316(6) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) 2010.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mai 2010.

Diwygio Deddf Pysgodfeydd 1981 (p.29)

2. Yn Rhan 1 o Atodlen 4 i Ddeddf Pysgodfeydd 1981(**2**), ar ôl paragraff 17B mewnosoder—

"**17C.** Any offence under section 190 of the Marine and Coastal Access Act 2009 (contravention of an order made by the Welsh Ministers in relation to fisheries in Wales)."

Elin Jones
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

11 Mai 2010

(**1**) 2009 p.23.
(**2**) 1981 p.29.